



## Polisi Gwirio Mewnol

Mae'r polisi hwn ar gael ar-lein yn: [www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org)

- Byddwn yn ystyried unrhyw gais i'r polisi hwn fod ar gael mewn fformat neu iaith arall. Cysylltwch â'r: Rheolwr Hyfforddiant
- Rydym yn adolygu ein polisïau'n gyson i'w diweddarau ac i sicrhau eu bod yn hygyrch a theg i bawb. Rydym yn croesawu awgrymiadau ar sut allwn wneud y polisi hwn yn decach a mwy hygyrch.
- Cyflawnir asesiad o effaith bob un o'n polisïau ar gydraddoldeb. Rydym bob amser yn barod i glywed gan unrhyw un sydd eisiau cyfrannu at yr asesiadau effaith hyn. Cysylltwch â'r: Rheolwr Hyfforddiant
- Dylid darllen a gweithredu'r polisi hwn law yn llaw â'r Weithdrefn Gwirio Mewnol sy'n cyd-fynd â fo.

Cymeradwywyd gan: TU/CR/AD

Fersiwn: f.2

Dyddiad Cyhoeddi: Mawrth 2013

Dyddiad adolygu: Mai 2017

Person Cyswllt: Rheolwr Ansawdd Hyfforddiant

### Datganiad Polisi

Gwirio Mewnol yw'r broses o fonitro arferion asesu i sicrhau bod penderfyniadau asesu'n bodloni safonau cenedlaethol. Mae'n darparu proses barhaus o sicrhau bod asesiadau o waith dysgwyr yn gyson, o ansawdd da ac yn deg.

Mae SNAP Cymru'n ymrwymedig i sicrhau bod safonau asesu a gwirio'n gyson, tryloyw ac yn unol â gofynion ein cyrff neu sefydliadau dyfarnu.

Rydym eisiau:

- Sicrhau bod gwaith pob dysgwr yn cael ei wirio'n deg, yn gywir ac yn rheolaidd mewn ffordd gyson.
- Bodloni a rhagori ar ofynion y cyrff dyfarnu

- Sicrhau bod penderfyniadau asesu dilys yn cael eu gwneud ynghylch pob dysgwr a bod gofynion allanol yn cael eu bodloni'n llawn
- Cefnogi staff yn eu gweithgareddau hyfforddi ac asesu drwy roi cyfle iddynt dderbyn adborth adeiladol ar y penderfyniadau asesu a wneir
- Asesu gwaith dysgwyr yn ddiffuant drwy fod yn gyson a thryloyw yn ein dyfarniadau a'n prosesau Asesu a Gwirio fel bo'r canlyniadau'n deg, dibynadwy a dilys
- Sicrhau bod safonau a manylebau asesu'n cael eu gweithredu'n llawn, fel nad oes unrhyw risg i enw da SNAP Cymru ac enw da'r cyrff dyfarnu
- Sefydlu trefniadau i reoli ansawdd a chofnodi asesiadau drwy system o samplo cymedroli a gwirio mewnol
- Darparu dulliau person-ganolog cynhwysol o asesu a gwirio sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr gyflawni a datblygu.

## Sgôp

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chysiau achrededig SNAP Cymru ac yn berthnasol i'r holl gymedroli mewnol.

I bwrpas y polisi hwn, mae'r term Gwirio Mewnol yn cwmpasu pob gweithgaredd sy'n cadarnhau a dilysu asesiad. Gellir ei weithredu drwy'r systemau gwirio fel sy'n ofynnol neu fel y cyflwynir gan gyrff arholi neu ddyfarnu; neu gall ddigwydd drwy wirio ac asesiad ffurfiannol a chyfunol o weithgareddau gwaith dysgwyr.

## Cyfrifoldebau

Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i gefnogi'r polisi'n llawn a gweithredol drwy sicrhau:

- Eu bod yn gwybod am, yn deall ac yn gweithredu'r polisi.

## Camau i weithredu a datblygu polisi

- Rhaid i'r holl wirio mewnol gael ei wneud gan staff cymwysedig neu gymeradwy priodol. Yn ddefnyddol bydd pob gwiriwr yn cwblhau dyfarniad gwirio mewnol cymeradwy. Lle mae gwiriwr mewnol dan hyfforddiant yn gwneud gwaith gwirio mewnol, rhaid i'r gwaith gael ei wirio gan Wiriwr Mewnol cymwysedig a'i wrth-lofnodi.

- Rhaid i bob cwrs fod ag aelodau penodol o staff i wirio neu safoni'r asesiadau ar gyfer y rhaglen benodol honno.
- Rhaid i Wirio Mewnol gael ei gyflawni'n barhaus drwy gydol y flwyddyn. Dylai gynnwys cylchoedd o wiriadau ffurfiannol a chyfunol. Yn ogystal, rhaid cynnwys cyfnodau amser priodol ar gyfer cyflawni Gwirio Mewnol mewn calendr.
- Rhaid i unrhyw dystiolaeth a gynhrychir fodloni gofynion y cyrff dyfarnu.
- Rhaid i dystiolaeth Gwirio Mewnol gael ei chofnodi ar ddogfennau priodol, sy'n ystyried gofynion System Ansawdd y cyrff dyfarnu.
- Rhaid i wirio mewnol ddigwydd cyn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch asesiadau a chyn hysbysu myfyrwyr a gofyn am dystysgrifau.
- Rhaid i dystiolaeth fod Gwirio Mewnol wedi digwydd fod ar gael ar gyfer adolygiad ansawdd blynyddol y cyrff dyfarnu
- Bydd gwirio mewnol yn cael ei fonitro'n fewnol a pharhaus gan dîm yr uned hyfforddiant
- Rhaid cadw cofnodion Gwirio Mewnol mewn lle diogel a dim ond staff awdurdodedig fydd yn cael eu gweld
- Rhaid i bob gwaith Gwirio Mewnol neu gymedroli fod yn unol ag argymhellion cyfredol y cyrff dyfarnu
- Rhaid i samplu fod ar draws pob hyfforddwr, asesydd a phob math o dystiolaeth a phob dysgwr, gan gynnwys cynlluniau, adolygiadau a chofnodion yn ogystal â thystiolaeth dysgwyr
- Rhaid i Wirwyr Mewnol fynychu cyfarfodydd safoni a chadw ffeil datblygiad proffesiynol parhaus gyfredol.

## Monitro a Gwerthuso

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro gan y Rheolwr Hyfforddiant / Gwirwyr a Rheolwr Ansawdd y Ganolfan a thrwy weithdrefnau archwilio ansawdd sefydledig.

## Polisiau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

Y Weithdrefn Gwirio Mewnol

Polisi Asesu

Polisi Mynediad at Asesiad Teg

Polisi Apeliadau Asesu

Polisi Cyfle Cyfartal

Polisi Plant ac Oedolion Agored i Niwed

Polisi Cwynion

Polisi Diogelu Data

Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol

Polisi Gwrthdaro Budd